Astudiaethau achos gwrth-hiliol: Samuel: hiliaeth preswylydd-i-staff mewn gofal cymdeithasol oedolion

Last Updated: 23/11/2026

Samuel: hiliaeth preswylydd-i-staff mewn gofal cymdeithasol oedolion

Setting: Gofal cymdeithasol oedolion: lleoliad cartref gofal.

Cyd-destun

Mae Samuel yn gynorthwyydd gofal uwch Prydeinig Du 42 oed o dras Affro-Caribïaidd. Mae wedi gweithio mewn gofal cymdeithasol oedolion ers dros ddeng mlynedd ac mae'n cael ei barchu gan breswylwyr, teuluoedd a chydweithwyr am ei ymagwedd dosturiol a phroffesiynol. Mae Margaret yn breswylydd Prydeinig Gwyn 84 oed sy'n byw gyda dementia asgwlaidd cam cynnar, diabetes a symudedd cyfyngedig. Mae angen cymorth arni gyda meddyginiaeth, gofal personol, maeth a lles emosiynol.

Beth ddigwyddodd

Mae Samuel yn un o'r gofalwyr rheolaidd a neilltuwyd i gynllun gofal Margaret. Pan yw'n dechrau ei chefnogi gyntaf, mae Margaret yn ymddangos yn gwrtais ond yn bell. Dros amser, mae ei hymddygiad yn dod yn fwyfwy gwahaniaethol. Mae hi'n gwrthod gofal personol gan Samuel, yn dweud ei bod hi eisiau "gofalwr Seisnig yn lle" ac yn cyfeirio dro ar ôl ro at Samuel fel "bachgen" yn hytrach nag wrth ei enw. Mae rhai cydweithwyr yn clywed y sylwadau hyn ond yn eu diystyru i ddechrau fel "ei chenhedlaeth hi yn unig" neu rywbeth sy'n gysylltiedig â dementia. Mae Samuel yn ceisio aros yn broffesiynol ac yn parhau i ddarparu gofal yn barchus. Dros sawl wythnos, mae'r ymddygiad yn gwaethygu.

Mae Margaret yn dechrau gwrthod prydau bwyd a meddyginiaeth pan fydd Samuel ar sifft. Mae hi'n gweiddi sarhadau hiliol yn ystod gofal personol ac yn gwneud cwynion i'r rheolwyr gan fynnu bod Samuel yn cael ei dynnu o'i gofal. Mae Samuel yn mynd yn ofidus ac yn flinedig yn emosiynol. Er mwyn amddiffyn ei lesiant, mae'n dechrau osgoi rhyngweithio diangen â Margaret.

Mae staff eraill yn dechrau cyfnewid dyletswyddau'n anffurfiol i osgoi gwrthdaro, gan arwain at anghysondeb yn nhrefn gofal Margaret. Mae'r rheolwyr yn ymateb i ddechrau trwy gylchdroi aseiniadau staff a chynghori Samuel i beidio â'i gymryd yn bersonol", tra hefyd yn egluro'r ymddygiad fel rhan o ddementia Margaret. Ni chwblheir unrhyw asesiad risg ffurfiol, ni chychwynnir unrhyw weithdrefn gwrth-wahaniaethu ac ni chynigir unrhyw gymorth strwythuredig i Samuel. Ni chaiff yr effaith ehangach ar ansawdd gofal ei thrin.

Effaith

Mae Samuel yn teimlo ei fod heb gefnogaeth ac yn ynysig. Mae trefniadau gofal yn dod yn anghyson. Mae Margaret yn colli dosau meddyginiaeth oherwydd gwrthod a dryswch ynghylch gofalwyr, mae monitro siwgr gwaed yn dod yn afreolaidd ac mae cyfathrebu rhwng staff a Margaret yn dirywio.

Yn ddiweddarach mae Margaret yn cwympo wrth geisio symud yn annibynnol ac mae'n cael ei derbyn i'r ysbyty gyda chlun wedi thorri. Mae staff yr ysbyty yn nodi dadhydradu, rheolaeth wael ar ddiabetes a dosau meddyginiaeth a fethwyd fel rhai sy'n cyfrannu at ei dirywiad.

Mae Samuel yn cymryd absenoldeb salwch oherwydd straen sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae morâl y tîm yn dirywio ac mae staff yn dechrau teimlo bod ymddygiad gwahaniaethol yn cael ei oddef yn y cartref.

Sut y dylai arfer gwrth-hiliol edrych

Gall amhariad gwybyddol ddylanwadu ar ymddygiad, ond nid yw'n dileu cyfrifoldeb y sefydliad i gydnabod hiliaeth, asesu risg ac amddiffyn urddas staff. Dylai ymateb tosturiol a strwythuredig gydbwyso gofal sy'n canolbwyntio ar y person â diogelwch staff, parhad gofal ac arfer gwrth-wahaniaethol.

Pwyntiau dysgu allweddol

- Ni ddylid byth normaleiddio, lleihau na diystyru hiliaeth tuag at staff
- Mae gan staff yr hawl i weithio mewn amgylchedd diogel a pharchus yn ddiwylliannol
- Rhaid i ofal sy'n ystyriol o ddementia ac arfer gwrth-hiliol gydweithio
- Gall ymddygiad gwahaniaethol amharu ar barhad gofal ac effeithio ar ddiogelwch, cyfathrebu a glynu wrth driniaeth
- Dylai rheolwyr gwblhau asesiadau risg, dogfennu pryderon, adolygu cynlluniau gofal a chynnig cefnogaeth i staff
- Gall diffyg gweithredu sefydliadol niweidio lles staff a chanlyniadau preswylwyr
- Dylai polisïau clir gynnwys canllawiau ar hiliaeth cleifion, preswylwyr a theuluoedd tuag at staff
- Mae ymyrraeth gynnar yn amddiffyn urddas, diogelwch, morâl ac ansawdd gofal.